

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN
CYMRU**



MID AND WEST WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY

**SYLWER: MAE'R COFNODION YMA'N AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN YR
AWDURDOD TÂN YN EI GYFARFOD NESAF / NOTE: THESE MINUTES ARE SUBJECT TO
CONFIRMATION BY THE FIRE AUTHORITY AT ITS NEXT MEETING**

**COFNODION
CYFARFOD YR AWDURDOD TAN**

**Ystafell Caer,
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Caerfyrddin
9 RHAGFYR 2013**

**MINUTES
OF THE FIRE AUTHORITY MEETING**

**The Caer Suite,
Fire and Rescue Service Headquarters, Carmarthen
9 DECEMBER 2013**

11.00 – 13.55

80% PRESENOLDEB / ATTENDANCE

Presennol yn y Cyfarfod / Present at Meeting:

**CADEIRYDD / CHAIR:
DIRPRWY GADEIRYDD / DEPUTY
CHAIR:**

**R Llewellyn
G Thomas**

AELODAU / MEMBERS:

**Cyng./Cllrs: D Cole, K W Curry,
W E Evans, L Frayling, T Hennegan,
C Higgins, P James, G Jones, A Lewis,
C Lloyd, S Paddison, K Pearson,
R Rees-Evans, K Tampin, W D Thomas,
G Walker, A Wilcox, D E Williams,**

YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:

Cyng./Cllrs: J Curtice, J Dudley, R Lewis

YN BRESENNOL / IN ATTENDANCE:

**R Smith, P Bates, D Daycock, C Davies,
D Masson, E Aitken, K Jones, S Flather,
C Jackson, H W Jones, G Storr, J Owen**

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr J Curtice, J Dudley a R Lewis.

2 DATGANIADAU GAN AELODAU O UNRHYW FUDDIANT PERSONOL NEU SY’N RHAGFARNU

Fe wnaeth yr holl Aelodau a oedd yn bresennol ddatgan fod ganddynt fuddiant personol mewn unrhyw faterion yn ymwneud â, neu sy’n debygol o effeithio ar, eu Hawdurdod Cyfansoddol nhw.

Fe wnaeth yr holl Aelodau a oedd yn bresennol ddatgan fod ganddynt fuddiant personol yn yr adroddiadau sy’n ymwneud â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

3 CYHOEDDIADAU’R CADEIRYDD / MATERION PERSONOL

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Awdurdod fod y Cyng. Dudley yn anhwylyd ar hyn o bryd, ac fe wnaeth yr Aelodau ddymuno gwellhad buan iddi.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lwyddiannau diweddar y Gwasanaeth, yn cynnwys Gwobrau Dathlu Llwyddiant, a gynhaliwyd ar y 14^{eg} o Dachwedd 2013, llwyddiant yr adran Datblygu Pobl a’r Gyfundrefn yng ngwobrau’r Training Journal a hefyd y ffaith fod y Gwasanaeth wedi ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl Arian.

Estynnwyd croeso i’r Cynghorydd D Cole, a oedd wedi cymryd lle’r Cynghorydd J Bayliss fel cynrychiolydd Llafur Abertawe ar yr Awdurdod Tân. Talwyd teyrnged i’r Cynghorydd J Bayliss ac, ar gais y Cynghorydd Bayliss, darllenwyd ei lythyr ymddiswyddiad, dyddiedig ar yr 20^{fed} o Hydref 2013, allan i’r Aelodau. Cytunwyd anfon llythyr o ddiolch i’r Cynghorydd J Bayliss, i ddiolch iddo am ei gyfraniad dilys tuag at yr Awdurdod Tân.

Fe wnaeth y Cadeirydd groesawu Mr Hywel Wyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, a oedd yn bresennol ar gyfer eitemau 8, 11 a 13 o’r agenda.

Estynnwyd croeso hefyd i Mrs Janine Owen, a fyddai’n cymryd lle Mrs Julie Owens, fel Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, dros gyfnod ei seibiant mamolaeth.

Adroddodd y Clerc / Swyddog Monitro, oherwydd y nifer fawr o eitemau ar yr agenda, y gallai’r Aelodau ohirio’r cyfarfod i roi ystyriaeth i faterion nad oedd wedi cael eu hymdrin ac, os fyddai angen gwneud hyn, roedd dyddiad dros dro wedi cael ei bennu ar gyfer yr 16^{eg} o Ragfyr 2013 am 10:00yh i aildechrau’r trafodion.

Fe wnaeth y Clerc / Swyddog Monitro ddarllen deiseb, a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Cymuned Mike Mills o Gyngor Tref Trefaldwyn, a oedd yn gwrthwynebu cau Gorsaf Dân Trefaldwyn. Roedd y ddeiseb, a fu yn ei lle rhwng yr 20^{fed} o Dachwedd 2013 a’r 2^{il} o Ragfyr 2013, yn cynnwys cyfanswm o 661 o lofnodion ar y 4^{ydd} o Ragfyr 2013.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod cyhoeddus a fynychwyd ganddo ym Mhont-iets, ar y 4^{ydd} o Ragfyr 2013, lle'r oedd y trigolion yn gwrthwynebu'r cynnig posib i gau Gorsaf Dân Pont-iets.

Adroddodd y Clerc / Swyddog Monitro bod cais wedi cael ei dderbyn oddi wrth Mr B Davies, ar ran Undeb y Brigadau Tân, i siarad mewn perthynas ag eitem 7 ar yr agenda. Dywedwyd wrth yr Aelodau, tra na dderbyniwyd y cais o fewn y 3 diwrnod gwaith clir sy'n ofynnol yn unol ag Erthygl 3 o Gyfansoddiad yr Awdurdod, roedd yn agored i'r Aelodau i ohirio'r rheolau sefydlog ar adeg berthnasol yn y trafodion, er mwyn galluogi i Mr Davies i annerch yr Awdurdod.

4 I GADARNHAU AC ARWYDDO BOD COFNODION CYFARFOD YR AWDURDOD TÂN, A GYNHALIWYD AR Y 23^{AİN} O FEDI 2013, YN GOFNOD CYWIR

Cadarnhawyd a chymeradwywyd bod cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân, a gynhaliwyd ar y 23^{ain} o Fedi 2013, yn gofnod cywir.

Materion yn codi

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Adnoddau at dudalen 9, eitem 17 yn y cofnodion, ac adroddodd, tra bod yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol wedi cael ei gwblhau gan yr Archwilydd o fewn y graddfeydd amser statudol, byddai dim yn bosib cwblhau'r archwiliad nes i archwiliad ychwanegol, a oedd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, i gael ei gwblhau.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Adnoddau at dudalen 10, eitem 20 yn y cofnodion hefyd, a oedd yn ymwneud â Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gofyn i bob Awdurdod Tân i roi trefniadau llywodraethu priodol yn eu lle, yn cynnwys ffurfio Byrddau Pensiwn Lleol, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei weinyddu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Adroddwyd y byddai adroddiad pellach ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno yn 2014, byddai Aelodau'n cael eu penodi ar y Bwrdd Pensiwn Lleol rywbryd yn ystod 2014 ac y byddai hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddarparu.

5 I DDERBYN, YSTYRIED A NODI COFNODION Y PWYLLGOR ARCHWILIO A CHRAFFU PERFFORMIAD, A GYNHALIWYD AR Y 14^{EG} O HYDREF 2013

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Chraffu Perfformiad, a gynhaliwyd ar y 14^{eg} o Hydref 2013, eu hystyried a'u nodi.

6 I DDERBYN, YSTYRIED A NODI COFNODION Y PWYLLGOR RHEOLI ADNODDAU, A GYNHALIWYD AR Y 25^{AİN} O DACHWEDD 2013

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Rheoli Adnoddau, a gynhaliwyd ar y 25^{ain} o Dachwedd, eu hystyried a'u nodi.

Materion yn codi

Fe wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Adnoddau atgoffa'r Aelodau o'r angen i ddeall,

yn llwyr, goblygiadau unrhyw benderfyniadau am y gyllideb a wneir mewn telerau ariannol.

7 I DDERBYN CYD-ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG TÂN A'R CYFARWYDDWR ADNODDAU AR OFYNION Y GYLLIDEB AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL 2014/15

Adroddodd y Clerc / Swyddog Monitro bod cais wedi cael ei dderbyn oddi wrth Mr B Davies, ar ran Undeb y Brigadau Tân (UBT), i siarad mewn perthynas ag eitem 7 ar yr agenda. Dywedwyd wrth yr Aelodau na dderbyniwyd y cais o fewn y 3 diwrnod gwaith clir sy'n ofynnol yn unol ag Erthygl 3 o Gyfansoddiad yr Awdurdod, fodd bynnag, roedd yn agored i'r Aelodau i ohirio'r rheolau sefydlog, er mwyn galluogi i Mr Davies i anerch yr Awdurdod. Cynigodd yr Aelodau bod y rheolau sefydlog yn cael eu gohirio yn unol ag Erthygl 19.35 o'r Gyfansoddiad, a bod y terfyn uchaf o ran amser i siarad yn cael ymestyn i 5 munud, er mwyn rhoi digon o amser i Mr Davies i anerch yr Awdurdod.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD gohirio'r Rheolau Sefydlog, yn unol ag Erthygl 19 o'r Gyfansoddiad, er mwyn galluogi i Mr B Davies i anerch yr Awdurdod am nid mwy na 5 munud, mewn perthynas ag eitem 7 ar yr Agenda.

Fe wnaeth Mr B Davies anerch yr Aelodau am oblygiadau'r gyllideb i aelodau UBT, a chyflwynodd nifer o ddogfennau i'r Aelodau, a oedd yn amlinellu dulliau amgen o gyflawni gostyngiad yn y gyllideb, yn cynnwys cael gwared ar swydd un Rheolwr Brigâd a dau Reolwr Grŵp, ailstrwythuro adrannau i leihau nifer y Penaethiaid Adran heb lifrai o 8 i 4, a chyfuno'r chwe ardal reoli i greu tair ardal reoli, a thrwy hynny cael gwared ar rai swyddi rheolwyr canol. Yn ogystal, cyflwynwyd dau gynnis pellach i'r Aelodau, yn ymwneud â chriwio'r pum gorsaf sifftiau yn ardal Bae Abertawe, os bydd angen i'r Awdurdod i gyflawni arbedion pellach. Gorffennodd Mr B Davies trwy bwysleisio nad oedd Undeb y Brigadau Tân yn derbyn y cynnis i gau nac israddio unrhyw orsafoedd, y model sifftiau 3x8 na'r system Criwio Hunan Restr.

Ailsefydlwyd y Rheolau Sefydlog.

Adroddodd y Prif Swyddog Tân (PST) bod yr amrywiaeth o amcanion gwella a osodwyd gan yr Awdurdod wedi gwella lefel y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer cymunedau lleol ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru, fel y dangoswyd gan y tuedd tuag at i lawr parhaus yn nifer y tanau, anafiadau a marwolaethau, blwyddyn ar ôl blwyddyn. Dywedodd y PST bod y fath welliannau, yn ei farn ef, yn darparu gwasanaeth dosbarth cyntaf, er gwaethaf cefndir o bwyseddau ariannol sylweddol mewn hinsawdd economaidd heriol.

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r meysydd lle gwnaethpwyd cynnydd yn unol ag amcanion yr Awdurdod, o ran diogelwch yn y gymuned ac ymateb gweithredol. Rhoddodd y PST amlinelliad o lwyddiannau'r Awdurdod ym meysydd rheoli risg, rheoli pobl, cydweithio, rheoli adnoddau a rheoli perfformiad hefyd.

Adroddodd y Prif Swyddog Tân bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Mai 2013, a oedd yn dod i'r casgliad fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, er y cydnabuwyd fod y sefydliad yn wynebu sialensiau parhaus wrth roi'r newidiadau bwriadus i'r gwasanaethau ar waith. Esboniodd y PST fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y ffaith fod yr awdurdod wedi gwneud gwell trefniadau cynllunio busnes, ei fod yn rheoli'r sialensiau ariannol yn effeithiol, y cynnydd a wnaed wrth ymdrin â'r cynigion blaenorol ar gyfer gwella, gwell ymagwedd at ymgysylltu â'r cyhoedd a hefyd oherwydd ei drefniadau llywodraethu cadarn.

Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân bwysigrwydd cyflwyno gostyngiad bwriadus yn y gyllideb, yn unol â strategaeth ariannol tymor canolig yr Awdurdod, er mwyn sicrhau effaith finimol ar allu'r Awdurdod i ddarparu gwasanaethau tân ac achub ar gyfer y cymunedau a wasanaethir. Dywedodd y PST y cydnabyddir y byddai angen i'r Awdurdod i fantoli cefndir economaidd cynyddol lym gyda'i nodau a'i uchelgeisiau, a fyddai'n profi'n her o ystyried lefel bosib y gostyngiad i'r gyllideb a fydd yn angenrheidiol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau drosolwg i'r Aelodau o setliad ariannol y Llywodraeth Leol, a effeithiodd ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2014/15, a oedd nawr o flaen yr Aelodau i'w ystyried.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr Awdurdod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi targedu ei gyllideb ar y cyfartaledd o ran gostyngiadau 'tebyg am debyg' oddi fewn i Awdurdodau Cyfansoddol ac, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am Gyllideb Cymru Gyfan ar ddechrau Hydref 2013, a chyhoeddiad mwy manwl gan yr awdurdodau lleol unigol yng nghanol mis Hydref, er mwyn efelychu'r ffigyrau yma, byddai'r ffigyrau yma'n cynrychioli gostyngiad o £2.7 miliwn ar gyfer 2014/15 ac, ar hyn o bryd, rhagwelwyd £1.5 miliwn pellach ar gyfer 2015/16, a oedd yn cyfateb i 6% a 3.5% o ofynion y gyllideb yn ôl eu trefn.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau hefyd, tra na chafwyd unrhyw arwydd o'r disgwyliadau ar gyfer 2016/17, cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru oedd y dylid cynllunio i osod cyllidebau ar sail llinell wastad, sy'n cyfateb i tua 2% neu £800,000 i'r Awdurdod Tân, yn seiliedig ar gyllideb arian parod ar yr un lefel a 2015/16.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod nifer o ymarferion effeithlonrwydd wedi cael eu cynnal dros y blynyddoedd diwethaf, a oedd wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd sylweddol i'r Awdurdod. Cyfeiriwyd hefyd at Raglen Adolygu'r Gwasanaeth (SRP), a oedd wedi creu amryw o opsiynau i'r Aelodau i'w hystyried a'u rhoi ar waith, fel eu bod yn teimlo eu bod yn briodol. Ar gais yr Aelodau, roedd yr holl wybodaeth mewn perthynas â'r SRP wedi cael ei flaenyrru i'r Aelodau.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau bod y Pwyllgor Rheoli Adnoddau, yn ei gyfarfod ar y 25^{ain} o Dachwedd 2013, wedi argymhell gostyngiad yng nghyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol o -1.56% (arbedion o £1.7 miliwn) i gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod, fel yr amlinellwyd yn Atodiad E i'r adroddiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gwahaniaeth mewn telerau ariannol rhwng cyllidebau ar gyfer gostyngiad o -1.56% yn hytrach na'r gostyngiadau "tebyg am debyg" cyfartalog o -3.85% oddi fewn i Awdurdodau Cyfansoddol yn cyfateb, yn gyffredinol, i £84,000 i Geredigion, £148,000 i Bowys, £206,000 i Sir Gaerfyrddin, £136,000 i Sir Benfro, £267,000 i Abertawe a £155,000 i Gastell-nedd Port Talbot.

Tynnwyd sylw at Atodiad C yr adroddiad, a oedd yn egluro'r opsiynau posib a oedd ar gael i'r Awdurdod, er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd, yn seiliedig ar gyngor proffesiynol y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig. Cynhaliwyd gweithdy cynllunio corfforaethol gydag Aelodau'r Awdurdod Tân, rheolwyr a chynrychiolwyr o'r undebau llafur, ar y 6^{ed} o Dachwedd 2013, er mwyn trafod yr opsiynau posib yma. Rhoddwyd ystyriaeth i'r rhestr a oedd yn amgaeedig gyda'r adroddiad, yn dwyn y teitl 'opsiwn 1', a oedd yn cynrychioli arbedion effeithlonrwydd na fyddai'n gostwng lefel y gwasanaeth a ddarperir, ynghyd â'r rhestr a gyflwynwyd yn 'opsiwn 2', a byddai pob un ohonynt yn cael effaith niweidiol ar y gwasanaeth a ddarperir.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau ddadansoddiad i'r Aelodau o'r cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd ar gyfer dibenion penodol. Pwysleisiwyd y dylid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i ategu'r gyllideb yn unig, lle mae'r Awdurdod wedi ystyried ei gynllun busnes tymor hirach a lle mae wedi cytuno i wneud y lefelau hynny o arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr mai mesur dros dro dylai defnyddio'r cronfeydd wrth gefn fod, nes i'r arbedion effeithlonrwydd a gytunwyd gan yr Awdurdod ddwyn ffrwyth.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Setliad Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2013-2014 yn dibynnu ar gyfrifiad 2011, yn hytrach na chyfrifiad 2001, ac felly rhoddwyd dadansoddiad i'r Aelodau o ddyraniad y gyllideb a fyddai'n ofynnol oddi wrth bob Awdurdod Cyfansoddol, yn seiliedig ar gyllideb ddigyfnewid.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Adnoddau bod pob Awdurdod Cyfansoddol yn debygol o fod yn cynllunio ar y sail y byddai'r Awdurdod Tân yn cyflawni'r gostyngiad yn y gyllideb "tebyg am debyg" cyfartalog ar gyfer Awdurdodau Cyfansoddol, ac y byddai unrhyw ostyngiad llai na hyn yn golygu byddai'n rhaid i Awdurdodau Cyfansoddol i wneud gostyngiadau mewn rhannau eraill o'u cyllidebau, er mwyn cyrraedd yr un lefelau o Dreth Gyngor bwriadus.

Rhoddwyd trosolwg i'r Aelodau o'r Adolygiad o Strwythur y Staff Uwch, a amlinellwyd yn Atodiad F i'r adroddiad, a gynhaliwyd ar gais Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Adnoddau ar y 25^{ain} o Dachwedd 2013, er mwyn sefydlu p'un ai bod unrhyw sgôp i gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd y byddai cael gwared ar swydd un Rheolwr Brigâd, dwy swydd Rheolwr Grŵp, cyfuno ardaloedd rheoli ac altradau dilynol oddi fewn i adrannau, yn cyflawni arbedion o rhwng £280,000 a £330,000. Fodd bynnag, byddai'r cynnig hwn yn cynrychioli gostyngiad mawr yn lefel y gwasanaethau rheng flaen a ddarperir. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai cael gwared ar nifer o swyddi allweddol yn effeithio'n uniongyrchol ar graidd gweithredol a gweinyddol y sefydliad, a byddai'n galw am ailddosbarthu llwythau gwaith. Pwysleisiwyd hefyd y byddai angen diwygio disgwyliadau, o ran lefel y gwasanaeth a ddarperir, yn unol â'r gostyngiad dilynol mewn gwasanaeth, pe byddai'r Aelodau'n

penderfynu bwrw ymlaen â'r opsiynau yma.

Yn olaf, adroddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau y gellid cyflawni arbedion ariannol o oddeutu £200,000 o'r gyllideb staff cymorth.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, esboniodd y Prif Swyddog Tân bod yr adolygiad o'r strwythur uwch reolwyr yn canolbwyntio'n arbennig ar sector gweithredol y Gwasanaeth Tân. Atgoffwyd yr Aelodau nad yw'r sgiliau arbenigol sydd eu hangen i ymgymryd â rolau anweithredol o anghenraid yn hawdd eu trosglwyddo i eraill trwy gyfuno rolau. Ailadroddwyd fod y Gwasanaeth yn ymchwilio ar hyn o bryd i gyfleoedd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd o oddeutu £200,000 yn y sector anweithredol, yn cynnwys rhyddhau staff yn gynnar, trwy gyfrwng ymddeoliadau gwirfoddol a diswyddiadau gwirfoddol.

Cynigodd y Cadeirydd yr argymhellion, a gofnodwyd yn briodol, ar gyfer dadl.

Fe wnaeth un Aelod grybwyll pryderon mewn perthynas â'r cyngor proffesiynol a roddwyd gan swyddogion mewn perthynas â'r posibilrwydd o gau gorsafoedd, a fyddai'n golygu byddai angen i gymunedau i dderbyn cyflenwad tân gan awdurdodau tân cyfagos, sydd eu hunain yn ystyried cau gorsafoedd.

Yn dilyn ymholiad gan Aelod, esboniodd y Prif Swyddog Tân nad yw'n ofyn statudol i'r Awdurdod i ddarparu cynllun cyd-ymatebydd.

Nododd Aelod ei fwriad i gynnig adolygiad o'r polisi prydlesu ceir yn y dyfodol, er mwyn sefydlu p'un ai y gellid cyflawni arbedion pellach.

Yn dilyn trafodaeth, cynigodd y Cynghorydd A Lewis ddiwygiad, a gafodd ei eilio. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

'Bod yr Awdurdod yn cytuno i ostyngiad dros dro yng nghyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol yn ei gyfarfod ar y 9^{fed} o Ragfyr 2013, gydag opsiynau penodol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn cael eu rhestru mewn cyfarfod o'r Awdurdod Tân a gaiff ei ail-alw ar yr 16^{eg} o Ragfyr 2013'.

Wedi cyflwyno'r cynnig, cafodd y diwygiad ei gario.

Cynigodd y Cynghorydd A Lewis ddiwygiad pellach, a gafodd ei eilio. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

'Wrth ystyried y gostyngiad yng nghyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol, ni fydd yr Awdurdod yn ystyried cau gorsafoedd tân'.

Wedi cyflwyno'r cynnig, cafodd y diwygiad ei gario.

Cynigodd y Cynghorydd C Higgins ddiwygiad, fel a ganlyn:

'Wrth ystyried y gostyngiad yng nghyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol, ni fydd yr Awdurdod yn ystyried israddio'r trefniadau criwio yng Ngorsafoedd Tân Castell-nedd, Port Talbot, Aberdaugleddau, Doc Penfro, Rhydaman a'r Cymer.

Wedi rhoi ystyriaeth i'r newidiadau posib i systemau criwio, pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân bod gorsafodded tân yn cael eu criwio yn unol â'r risg. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yna rai newidiadau i systemau criwio y gellid eu gwneud, na fyddai'n effeithio ar y gwasanaeth mae cymunedau'n ei dderbyn, yn gymaint ag y byddai opsiynau eraill yn cael effaith ar y gwasanaeth a ddarperir.

Wedi cyflwyno'r cynnig, fe wnaeth y Cynghorydd C Higgins dynnu'r diwygiad yn ôl.

Fe wnaeth Aelod grybwyll pryderon bod y newidiadau i systemau criwiau dros y blynyddoedd diwethaf yn ymddangos eu bod yn canolbwyntio'n helaeth ar ardaloedd gwledig, ac roedd o'r farn y dylai newidiadau gael eu taenu'n fwy cyfartal ar draws y chwe Awdurdod Cyfansoddol.

Cafwyd awgrym y dylai'r Awdurdod ddatblygu cangen fasnachu, fel modd o gynhyrchu incwm. Mewn ymateb, mynegodd y Prif Swyddog Tân y farn fod y Gwasanaeth yn cael ei ariannu gan drethdalwyr ac felly, dylai'r Awdurdod ystyried yn ofalus cyn ceisio tâl am wasanaethau.

Yna, cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r ardoll sy'n ofynnol oddi wrth yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mynegodd nifer o Aelodau'r farn y dylai'r Awdurdod benderfynu ar ardoll derfynol, gyda'r manylion sut i gyflawni'r arbedion hynny'n cael ei benderfynu yn ei gyfarfod ar yr 16^{eg} o Ragfyr 2013. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo fod angen i'r Awdurdod i ddeall cyd-destun a goblygiadau unrhyw benderfyniadau cyn cytuno ar ardoll. Yn ogystal, fe wnaeth yr Aelodau ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn a'r posibilrwydd bod yr Awdurdod yn rhoi £500,000 o'i Gronfeydd Wrth Gefn i'r Awdurdodau Cyfansoddol fel symudiad unigryw, ond nid i ostwng y gyllideb sylfaenol gan y swm hwn. Ni arweiniodd yr uchod at unrhyw gynigion gan yr Aelodau.

Wrth ystyried lefel yr arbedion sy'n ofynnol, esboniodd y PST a'r Cyfarwyddwr Adnoddau bod cyd-adroddiad a gyflwynwyd i'r Aelodau yn cynnwys opsiynau i arbed 3.85% (£5 miliwn dros gyfnod o dair blynedd). Yn ogystal, nid oedd adroddiad Undeb y Brigadau Tân yn cynnwys unrhyw gynigion ychwanegol, yn hytrach na bod yr adroddiad yn cyflwyno dulliau amgen o gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, esboniodd y Clerc / Swyddog Monitro nad oedd yna unrhyw gorff gwneud penderfyniadau ffurfiol ar gyfer Aelodau i gwrdd â Rheolwyr a chynrychiolwyr yr Undebau yn ystod yr wythnos sydd i ddod ac, er y gallai'r Cyd-fforwm Ymgynghorol gyflawni'r rôl hwn, byddai'n anodd galw cyfarfod, ac ni fyddai'n gorff gwneud penderfyniadau ta beth. Fodd bynnag, gallai'r Aelodau wneud ymholiadau pellach a gofyn am wybodaeth bellach, fel sy'n ofynnol o'r Swyddogion yn y cyfamser. Dywedwyd hefyd nad oedd yr adroddiad a roddodd Undeb y Brigadau Tân i'r Aelodau yn cyfrif fel dogfen swyddogol yr Awdurdod.

Yna, cynigodd y Cynghorydd C Higgins ddiwygiad, a gafodd ei eilio. Roedd y diwygiad fel a ganlyn:

'Bod yr Awdurdod yn cytuno i ostyngiad dros dro yng nghyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol o -1.56%, gydag opsiynau penodol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn

cael eu rhestru mewn cyfarfod o'r Awdurdod Tân a gaiff ei ail-alw ar yr 16^{eg} o Ragfyr 2013'.

Wedi cyflwyno'r cynnig, cafodd y diwygiad ei gario.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD:

- 1. Bod gostyngiad dros dro yng nghyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol o -1.56% yn cael ei gytuno, gydag opsiynau penodol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn cael eu rhestru mewn cyfarfod o'r Awdurdod Tân a gaiff ei ail-alw ar yr 16^{eg} o Ragfyr 2013.***
- 2. Wrth ystyried gostyngiad yng nghyfraniad yr Awdurdodau Cyfansoddol, ni fydd yr Awdurdod yn ystyried cau gorsafoedd tân.***
- 3. Eitem 7 ar yr agenda i gael ei ohirio, i'w ail-alw am 10:00awr ar yr 16^{eg} o Ragfyr 2013.***

8 I DDERBYN ADRODDIAD AR BROTOCOL HUNANREOLI'R AELODAU

Cyflwynodd y Clerc / Swyddog Monitro yr adroddiad ar Brococol Hunanreoli'r Aelodau, a oedd yn traethu'r trefniadau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion aelod am aelod lefel isel, yn unol â Chôd Ymddygiad yr Aelodau.

Dyweddodd yr Aelodau y byddai mabwysiadu'r protocol hunanreoli yn cynnig prosesau cyflafareddu mewnol, er mwyn atgyfnerthu a chyflymu atebolrwydd am ymddygiad aelodau ac i leihau nifer yr atgyfeiriadau at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer materion gweddol lefel isel.

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau bod grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu i ddatblygu protocol drafft, a ystyriwyd yn fanwl ac a gytunwyd gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar yr 2^{il} o Ragfyr 2013. Pwysleisiwyd bod y protocol yn ddogfen gryno ac ymarferol, a oedd yn anelu at ategu a gwella'r Côd Ymddygiad.

Dyweddwyd wrth yr Aelodau y byddai cyfansoddiad y Panel Penderfyniadau Lleol yn cynnwys yr Arweinwyr Grŵp, ynghyd ag Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, a fyddai'n cael ei ddewis ar adeg ymgynnull y Panel.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Protocol Hunanreoli.

9 I DDERBYN ADRODDIAD YCHWANEGOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW)

Adroddodd y Clerc / Swyddog Monitro bod Panel Annibynnol Cymru ar

Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) wedi cyhoeddi adroddiad ychwanegol, mewn perthynas â thaliadau i aelodau cyfetholedig o Awdurdodau Lleol yng Nghymru, yn unol ag adran 147 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r prif ddarpariaethau a amlinellwyd yn yr adroddiad ychwanegol, a oedd yn ymdrin â materion megis taliadau a dderbyniwyd am baratoi cyn cyfarfodydd, penderfynu ymlaen llaw ar amseru cyfarfodydd a dyletswyddau cymeradwy sy'n gymwys i dderbyn tâl amdanynt. Nodwyd y byddai'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ychwanegol yn dod i rym ar Ionawr y 1^{af} 2014.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

10 I DDERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL (IRPW) AR GYFER 2014/15

Fe wnaeth y Clerc / Swyddog Monitro gyflwyno adroddiad i'r Aelodau, yn cynnwys adroddiad blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW), a oedd yn traethu cynigion ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y cyfnod ymgynghori, i ddarparu unrhyw osodiadau neu sylwadau ar yr adroddiad drafft, wedi dod i ben ar y 26^{ain} o Dachwedd 2013, ond bod holl Aelodau'r Awdurdod Tân a'r Pwyllgor Safonau wedi cael cyfle i ymateb yn uniongyrchol i'r IRPW cyn y dyddiad hwn.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol drafft, a oedd yn ceisio rhoi cydraddoldeb rhwng taliadau Awdurdodau Tân ac Awdurdodau Cyfansoddol. Nodwyd y dylai'r cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau arferol o Awdurdod Tân ac Achub fod yn £1,700, ac y dylai Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub dderbyn cyflog uwch o £10,400. Fe wnaeth y Clerc / Swyddog Monitro gadarnhau bod yr Awdurdod wedi penderfynu eisoes i beidio rhoi cyflog uwch i Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân nac i Gadeiryddion y Pwyllgorau, er bod y cyflog uwch a argymhellwyd gan yr IRPW yn amodi ffi o £5,400 ar gyfer y rolau hynny.

Tynnodd un Aelod sylw at wahaniaeth o ran taliadau rhwng Aelodau'r Awdurdod Tân ac Aelodau Cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau, a gafodd ei gyfleu gan yr IRPW yn ystod eu hymweliad ymgynghori â'r Awdurdod yn 2013. Cafwyd cais i'r Clerc / Swyddog Monitro i ysgrifennu at yr IRPW i gyfleu teimladau'r Awdurdod Tân ar y mater.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD:

- 1. Bod yr Awdurdod Tân yn nodi'r adroddiad blynyddol drafft a phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar***

gyfer Awdurdodau Tân ac Achub Cymru yn 2014/15.

- 2. Bod y Clerc / Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, i gyfleu teimladau'r Awdurdod Tân mewn perthynas â'r gwahaniaeth o ran taliadau rhwng Aelodau'r Awdurdod Tân ac Aelodau Cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau.**

11 I DDERBYN ADRODDIAD AR Y POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

Cyflwynodd y Clerc / Swyddog Monitro adroddiad ar ddiwygiadau i'r Polisi Chwythu'r Chwiban, a anelwyd at annog gweithwyr i grybwyll materion yn ymwneud â thwyll, camymddwyn neu gamwedd, heb ofni derbyn triniaeth niweidiol wedi'i ddatgelu.

Dywedodd y Clerc / Swyddog Monitro wrth yr Aelodau bod diwygiadau wedi cael eu gwneud i'r Polisi Chwythu'r Chwiban, a oedd yn adlewyrchu darpariaethau diwygiedig Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, wedi cyflwyno isadrannau 17-20 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r Polisi Chwythu'r Chwiban diweddaedig, POD 05 60 a amlinellwyd yn Atodiad 1 i'r ddogfen, a ddiwygiwyd yn unol ag arfer gorau cydnabyddedig a pholisïau enghreifftiol perthynol.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, fe wnaeth y Pennaeth Corfforaethol Datblygu Pobl a'r Gyfundrefn gadarnhau bod hyfforddiant Asesu Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr ar y materion yma. Mewn ymateb i gais bod unrhyw Hyfforddiant Datblygu Aelodau yn cael ei ddarparu ar sail gydweithredol a / neu yn rhad ac am ddim, medrodd gadarnhau y byddai unrhyw hyfforddiant yn y dyfodol yn cael ei ddarparu gan CLILC ar sail "heb gost".

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod y Polisi Chwythu'r Chwiban diwygiedig yn cael ei gymeradwyo i'w gynnwys yng Nghyfansoddiad yr Awdurdod.

12 I DDERBYN ADRODDIAD AR FANCIO – INDEMNIAD SIEC

Adroddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau bod yr Awdurdod wedi symud at system lle mae sieciau'n cael eu hargraffu ar bapur plaen â haen diogelwch, fel modd o wella diogelwch ac, fel rhan o'r broses hon, roedd angen i Gadeirydd yr Awdurdod i gael ei awdurdodi i arwyddo ffurflen indemniad talu siec. Esboniodd fod cynllun y siec a llofnod y Trysorydd yn cael eu hychwanegu at y siec ar adeg ei argraffu erbyn hyn, ac felly ni chedwir sieciau a arwyddwyd ymlaen llaw bellach. Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, fe wnaeth y Pennaeth Cyllid gadarnhau bod y broses newydd a fabwysiadwyd yn niwtral o ran cost.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD bod Cadeirydd yr Awdurdod Tân yn cael ei awdurdodi i arwyddo indemniad talu siec o blaid Barclays Bank PLC.

13 I DDERBYN ADRODDIAD AR INDEMNIAU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

Adroddodd y Clerc / Swyddog Monitro bod yr Awdurdod yn medru indemnio pob Aelod a Swyddog o'r Awdurdod yn erbyn unrhyw hawliad, atebolrwydd, colled a/neu ddifrod, mewn perthynas ag unrhyw weithred neu fethiant i weithredu gan unrhyw Aelod neu Swyddog, cyn belled ag y bo'r gyfraith yn caniatáu, yn cynnwys costau cyfreithiol cynrychiolaeth os digwydd i Aelod i fod yn achos ymchwiliad sy'n honni ei fod wedi torri'r Côt Ymddygiad.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gan yr Awdurdod Bolisi Yswiriant Côt Ymddygiad yr Aelodau yn ei le, sy'n ddilys nes Mawrth 2014, a byddai'n talu am gostau cyfreithiol ymlaen llaw hyd at uchafswm o £50,000 fesul hawliad a chyfanswm o £500,000 fesul cyfnod o yswiriant. Rhoddwyd yr awdurdod i roddi'r fath indemniadau i'r Pwyllgor Safonau. Fodd bynnag, mewn achosion lle canfuwyd fod Aelod wedi torri'r Côt Ymddygiad, pe byddai sancsiwn megis gwaharddiad neu ddiarddeliad yn cael ei orfodi, byddai disgwyl i'r Aelod i ad-dalu'r Awdurdod, ond pe byddai'r gosb yn llai, yna byddai gan y Pwyllgor Safonau'r dewis i hepgor y gofyniad hwn.

Cafodd y polisi ei ystyried gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar yr 2^{il} o Ragfyr 2013, ac argymhellwyd terfyn ariannol o £20,000 ar gyfer pob indemniad, yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Dywedwyd wrth yr Aelodau y gallai unrhyw derfyn ariannol a osodwyd gael ei ddiwygio gan yr Awdurdod, yn ôl yr angen.

PENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD

Bod y polisi indemniadau diwygiedig yn cael ei gytuno, gyda therfyn o £20,000 yn cael ei osod ar gyfer pob indemniad.

14 I DDERBYN UNRHYW EITEMAU ARALL O FUSNES Y MAE'R CADEIRYDD, OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, YN PENDERFYNU Y DYLLID EU HYSTYRIED FEL MATER O FRYYS YN UNOL AG ADRAN 100(B)(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Doedd dim eitemau o fusnes brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:55.